**Cofnodion Cyfarfod CCG Mawrth 25.3.21**

**Am 7.30yh Ar-lein**

**19:198: Presennol:** Gareth Jones (Cadeirydd), Gwen Lloyd, Geraint Wigley, William Owen, Gareth Jones, Huw Williams, Aled Griffiths, Gareth Owen, Paul Hughes, Sandra Evans (Clerc)

**19:199: Ymddiheuriadau:** Siôn Ifans, Deryck Lewis, Dafydd Evans, Gwenfair Davies, Aeron Pughe

**19:200: Datganiadau o ddiddordeb:** Paul Hughes – contract gwaith mynwentydd

**19:201: Cyflwyno a Derbyn Cofnodion Chwefror** Cynigiodd Geraint Wigley fod y cofnodion yn gywir. Fe'i heiliwyd gan William Owen.

**19:202: Materion yn codi o'r Cofnodion**

**19:202:1: Gwefan y Cyngor** (19:17:1**)** Penderfynwyd defnyddio gwasanaethau HJ Web Designs i greu a chynnal gwefan newydd sbon. Tybiwyd y byddai'n well gan y Cyngor dalu am greu gwefan newydd sbon a thalu £50.00 y flwyddyn ar ben cost cynnal gwefan gyfredol y Cyngor. Tybiwyd y byddai hynny'n rhoi gwell werth am arian na thalu am awr o hyfforddiant arfaethedig i'r clerc (hyd at **£57**+ TAW) a'i thalu yn ôl cyfradd ei chyflog arferol (£11.00 yr awr) am osod agenda a chofnodion y Cyngor yn fisol (tua 10 munud ar y mwyaf) ar wefan gyfredol y Cyngor gyda Gloversure.

**19:202:2: Peipen dŵr yn Llanwrin**. (19:187:2**)** Yn dilyn y cyfarfod pellach â'r Bwrdd Dŵr, mae trafodaethau'n parhau rhwng y bwrdd Dŵr a pherchennog gardd o ran lleoliad y ffens. Bydd William Owen yn monitro'r sefyllfa.

**19:202:3**: **Pumphouse Cwmlline** (19:187:3**)** – Cysylltwyd â Chyfoeth Naturiol Cymru a Bwrdd Dŵr Cymru i fynegi pryderon parhaus am y Pumphouse. Nododd Bwrdd Dŵr Cymru nad oedd problem ar hyn o bryd a phwysleisiodd y Bwrdd Dŵr ei fod wedi gweithredu'n brydlon i dynnu'r rhwystr ym mis Ionawr ac nad oedd problemau wedi codi ers hynny. Nodwyd hefyd bod y sefyllfa wedi bod yn iawn hyd at y digwyddiad ym mis Rhagfyr ers i'r Bwrdd Dŵr wario £15,000 ar y Pumphouse y llynedd. Mae'r Bwrdd Dŵr yn monitro'r lleoliad yn gyson er sicrhau na fyd problemau pellach. Mae Deryck Lewis hefyd yn gwneud. Penderfynwyd cysylltu â' CNC i ddweud bod y Cyngor yn siomedig gyda'r ymateb a cheisio eglurhad am sut mae dŵr storm yn berthnasol i broblemau gyda'r Pumphouse. Nodwyd os bydd problem yn codi eto bydd yn ddyletswydd ar y Cyngor i adrodd y mater.

**19:202:4: Ciosg Comins a'r diffibriliwr posib**. (19:187:5) Cafwyd un amcan bris yn barod ond nid yw CHT, perchennog y bocs, wedi ymateb hyd yn hyn. Nodwyd y byddai'r mater yn cael ei drafod ym mhresenoldeb y Cynghorwyr lleol.

**19:202:5: Ffens eglwys Darowen**. (19:187:6) Bydd Aeron Pughe yn gofalu.

**19:202:6: Ciosg Cemaes.** (19:187:7) Bydd Siôn Ifans yn gofalu.

**19:202:7: Baw cŵn yng Nghemaes**. (19:187:90) Yn dilyn trafodaethau helaeth mae'r broblem yn parhau. Cynigiodd Cyngor Sir Powys fonitro'r sefyllfa a chosbi'r perchnogion cŵn yn ariannol. Pwysleisiwyd mai bins oedd eisiau ac erbyn hyn mae Cemaes ar restr aros y Cyngor am finiau. Cysylltir eto â'r Cyngor i bwysleisio difrifoldeb y broblem o ran iechyd a chulni'r ffordd nad yw'n bosib osgoi'r baw cŵn wrth gamu o ffordd traffig.

**19:202:8**: **Ffordd beryg ar ôl torri coed rhwng Llanwrin a Ffridd Gate – tir Glanfechan**. Anfonwyd lluniau gan Gwen Lloyd i ddangos maint y broblem. Nododd Cyngor Powys na fyddai modd gwneud mwy na chodi clawdd a pholion adlewyrchu gan fod rhaid dilyn fformiwla yn ymwneud â maint y damweiniau/marwolaethau a welwyd mewn man penodol er mwyn gweithredu i atal y fath ddamweiniau a marwolaethau. Penderfynwyd cysylltu ag Elwyn Vaughan a chysylltu eto â Chyngor Sir Powys i fynegi siom a phryder nad oedd modd gwneud mwy. Nodiwyd nad yw'r polion adlewyrchu wedi cyrraedd eto a gofynnir am eu gosod ar hyd y ffordd i gyd o bentref Llanwrin heibio'r coed a dorrwyd fel bod digon o rybudd i draffig. Cynigiwyd hyn gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Paul Hughes.

**19:202:9**: **Ysbwriel yn Llanwrin**. (19:197:1) Cafwyd cyfarfod llwyddiannus rhwng William Owen a chynrychiolwyr y Gymdeithas Tai a datryswyd y broblem.

**19:202:10**: **Cofrestr Buddiannau Cynghorwyr** (19:197:8) Anfonir taflen i'r Cynghorwyr i'w cwblhau. Cynigiwyd hyn gan Gwen Lloyd ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen.

**19:203: Gohebiaeth: -**

**19:204: Cynllunio**

**19:204:1: Cynllunio Cyfeirnod: 21/0183/AGR** Codi adeilad amaethyddol cyffredinol a gwaith cysylltiedig: Mathafarn, Llanwrin, Machynlleth, SY20 8QJ. Cymeradwywyd y cais. Cynigiwyd hyn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Geraint Wigley

**19:205: Materion Ariannol:**

- **Capel Cemaes** – Cais am bres i gadw'r mynwentydd. Cynigiwyd y dylid cyfrannu £200.00 gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Huw Williams
- **Tâl aelodaeth Un Llais Cymru** Cynigiwyd y dylid talu £224 .00 gan Gwen Lloyd ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths
- **Bancio ar-lein**. Mae un Cynghorwr wedi llwyddo i gofrestru ar gyfer bancio ar-lein. Nodwyd bod y broses gofrestru yn drafferthus dros ben gan achosi oedi.
- **19:207:2: Diweddariad ariannol**

| | | |
|---|---|---|
| **CCG current** | **80405019** | **£19,015.95 (-760.80)** |
| **CCG savings 0.15** | **80405035** | **£6,090.98** |
| **Mynwentydd 0.04** | **40500941** | **£1,795.68** |

**19:206: Adroddiadau'r Cynghorwyr**
**19:206:1: Adroddiad ar Ysgol Glantwymyn- Aled Griffiths** Mynychwyd gweithdy ar gyllid. Nodwyd bod y fformiwla ariannu ar hyn o bryd yn ffafriol ar gyfer ysgolion megis Ysgol Glantwymyn

**19:207: Unrhyw fater arall**

**19:207:1: Diffyg ymateb gan Fwrdd Iechyd Bro Ddyfi** Cynigiwyd y dylid gadael mis arall cyn mynd i'r afael â'r mater hwn. Fe'i cynigiwyd gan Gwen Lloyd ac fe'i heiliwyd Gareth Jones.

**19:207:3: Torri gwair mynwentydd Darowen a Llanwrin** Ni fydd Paul Hughes yn cyflawni'r gwaith hwn yn y dyfodol achos gofynion gwaith eraill. Diolchwyd iddo am ei waith cryno a diolchodd yntau i'r Cyngor. Hysbysebir y gwaith yn y Blewyn Glas yn y lle cyntaf. Cynigiodd hwn gan Geraint Wigley ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen.
**19:207:4: Mynychu cyfarfodydd**. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd presenoli ac ymddiheuro am absenoldebau. Penderfynwyd anfon neges at yr holl gynghorwr i'w hatgoffa bod perygl iddynt golli eu llefydd ar y Cyngor os byddant yn colli 6 chyfarfod yn olynol.
**19:207:4**: **Parcio yng Nghemaes** - Mae diffyg lle i barcio'n broblem yng Nghemaes o hyd, ar gyfer yr eglwys ac ym Maes–y-Llan. Cysylltir ag Elwyn Vaughan i ofyn i Gyngor Sir Powys droi rhywfaint o'r tir gwair o flaen y tai yn le addas i barcio yn hytrach na glaswellt.

**19:207:5:** Ffordd gefn, Abercegir – Mae eitemau megis ysbwriel, carafanau, deunyddiau adeiladau, cytiau coed tân a chwch wrth ochr y ffordd.

**Caewyd y cyfarfod am 9.11yh.**

**Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30yh ar y 29ain o Ebrill**

-----------------------------------------------

**Cyfarfod Ymddiriedolaeth y Melinau Gwynt**

Derbyniwyd cais am arian gan Ysgol Feithrin Glantwymyn ar gyfer 'Wellcomm' sef pecyn sgrinio ac asesu plant. Cynigiwyd y dylid talu £600.00 ar gyfer achos teilwng iawn gan Geraint Wigley ac fe'i heiliwyd gan Paul Hughes.
Caewyd y cyfarfod am 9.20yh